Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

hefcw

Higher Education Funding Council for Wales

GRŴP LLYWIO AR GYFER DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG MEWN ADDYSG UWCH

STRATEGAETH

GORFFENNAF 2004

CYNNWYS

Rhagair 3

Cefndir y Strategaeth 4

Ymgeisio'n Uwch 4

Grŵp Llywio ar gyfer Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch 4

Y Strategaeth 6

1 Nodau 6

2 Tybiaethau Allweddol 6

3 Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio CCAUC 8

4 Cyllid Prif-ffrwd ar gyfer Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg 8

5 Datblygu a Recriwtio Staff 9

6 Marchnata a Dilyniant 12

7 Datblygu darpariaeth 14

8 Cymorth Canolog 15

9 Ymrwymiad y Sector a'r Sefydliadau 16

10 Targedau 16

Atodiad A: Grŵp Llywio ar gyfer darpariaeth cyfrwng cymraeg mewn addysg uwch 17

Aelodaeth 17

Cylch Gorchwyl 18

Atodiad B: Crynodeb Ariannol 19

DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG MEWN ADDYSG UWCH

STRATEGAETH DDRAFFT

RHAGAIR

Mae'r hyn a gynigir yn y strategaeth hon yn seiliedig ar y ddadl syml a ganlyn:

- y dylai cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fod ar gael i fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n dymuno manteisio arnynt;
- bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r nifer sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn fach er gwaethaf ymroddiad llawer o sefydliadau ac unigolion ar hyd a lled Cymru;
- ei bod hi'n bosibl sicrhau gwelliant sylweddol a chyson os ceir cyllid ychwanegol a ddefnyddir yn effeithiol, strategaeth genedlaethol gydgysylltiedig, ymrwymiad gan sefydliadau addysg uwch a chefnogaeth partneriaid.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol ar gyfer y gwelliant hwn: y dylai'r gyfran o fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu i 7% erbyn y flwyddyn 2010/11. Cyrraedd y targed hwn yw nod canolog y strategaeth hon.

Mae'r Gweinidog Dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Davidson AC, wedi cymryd diddordeb mawr yng ngwaith y Grŵp Llywio sy'n gyfrifol am y strategaeth. Rwyf yn gwybod ei bod hi'n edrych ymlaen at dderbyn y strategaeth yn yr hydref, ac at gael ymatebion y gymuned addysg uwch iddi.

Bu ei aelodaeth eang o gryn fudd i'r Grŵp Llywio. Yn ogystal ag arbenigwyr o addysg uwch mae'n cynnwys cynrychiolwyr o rannau eraill o'r system addysg ac o fyd gwaith. Rwyf yn ddiolchgar iawn iddynt oll am roi o'u hamser prin i'r gwaith hwn ac am y lefel uchel o gydsyniad a gyrhaeddwyd ganddynt.

Mae'r strategaeth wedi manteisio ar syniadau a gyflwynwyd gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn dau adroddiad blaenorol. Ond mae'n mynd â'r syniadau hyn ymhellach, gan roi pwyslais llawer cryfach ar gydgysylltu cenedlaethol, gweithredu cydweithredol rhwng sefydliadau addysg uwch, a safle ehangach Cymru fel gwlad ddwyieithog.

Rydym yn awr yn gwahodd pob sefydliad addysg uwch, a phawb arall sydd â diddordeb yn y maes hwn, i gynnig eu sylwadau ar yr hyn a gynigir yn y strategaeth.

Sylweddolwn fod y cyfnod ymgynghori yn fyr, a bod yr amseru yn anghyfleus, ond mae'n bwysig i gynllun cydlynol ar gyfer dyfodol dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch, sy'n eiddo i'r sector cyfan, gael ei gyflwyno i'r Gweinidog mor fuan â phosibl.

Andrew M.W. Green
Cadeirydd
Grŵp Llywio ar gyfer Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch
Gorffennaf 2004

CEFNDIR Y STRATEGAETH

YMGEISIO'N UWCH

Yn ei strategaeth ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru, *Ymgeisio'n Uwch, Addysg Uwch a'r Wlad sy'n Dysgu*,[1] eglurodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei dyheadau ar gyfer addysgu cyfrwng Cymraeg:

> Rydym wedi ymrwymo i weithio i wneud dwyieithrwydd yn realiti yng Nghymru . . . Mae eisiau sector AU arnom sy'n ymatebol i unigolion, gan gynnwys y rheiny sy'n dymuno dilyn elfennau o'u graddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dros amser dylid edrych ar hyn fel rhan o'r ddarpariaeth brif-ffrwd, gan gwmpasu detholiad o gyrsiau a modiwlau. Rydym am i sefydliadau weithio mewn ffordd hyblyg a chydweithiol wrth ystyried sut y gallant gwrdd â'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae *Ymgeisio'n Uwch* yn gosod targed penodol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r sector mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg:

> y gyfran o fyfyrwyr amser-llawn a rhan-amser mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg i gynyddu o 3.4% (2000/01) i 7% (2010/11).

Wedi cyhoeddi *Ymgeisio'n Uwch*, cyflwynodd CCAUC ddau adroddiad i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, y naill, ar y lefelau presennol o alw a chyflenwad mewn addysg uwch cyfrwng Cymraeg, ym mis Gorffennaf 2002 a'r llall, a oedd yn cynnwys argymhellion ar sut i gynyddu galw a chyflenwad ym maes darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ym mis Chwefror 2003.

Paratowyd adroddiad mis Chwefror 2003 mewn ymgynghoriad â Chadeirydd a chynrychiolwyr Fwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg ac amlinellodd fframwaith strategol ar gyfer datblygu darpariaeth drwy'r sector. Cynhwysodd gynlluniau penodol ar gyfer cynyddu nifer y staff cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer hybu gweithgareddau cydweithiol a chydgysylltu a chymorth canolog drwy sefydlu canolfan genedlaethol dros ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

GRŴP LLYWIO AR GYFER DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG MEWN ADDYSG UWCH

Nododd yr adroddiad hefyd yr angen i sefydlu grŵp llywio i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Er nad oedd y Gweinidog yn gallu darparu cyllid, yn y tymor byr o leiaf, ar gyfer y cynigion yn yr adroddiad, penderfynodd CCAUC fynd ati i sefydlu'r grŵp llywio fel y gallai ddechrau'r gwaith o ddatblygu strategaeth gynhwysfawr a thymor-hwy i'w hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae gan y Grŵp Llywio gynrychiolaeth eang o'r sector AU a chyrff eraill sydd â diddordeb mewn neu gyfraniad i'w wneud at ddatblygu AU cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sector ôl-16 ac ysgolion, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru, a chyflogwyr. Mae gan swyddogion CCAUC berthynas waith agos â'r Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Gymraeg a phartneriaid eraill. Cadeirydd y Grŵp Llywio yw Andrew Green, Llyfrgellydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.[2] Er mai CCAUC a aeth ati i sefydlu'r Grŵp Llywio, ac i swyddogion y Cyngor ddarparu ysgrifenyddiaeth ar ei gyfer, mae CCAUC yn ystyried bod y Grŵp Llywio yn ei hanfod yn bartneriaeth â'r sector, yn hytrach na phwyllgor a reolir gan y Cyngor. Rhaid i'r sector fod yn berchen ar y strategaeth sy'n esblygu.

Sefydlwyd y Grŵp Llywio ym mis Tachwedd 2003 ac mae ef wedi cyfarfod dair gwaith. Mae hefyd wedi sefydlu tri is-grŵp sy'n cyfarfod rhwng cyfarfodydd y Grŵp Llywio i ddatblygu agweddau neilltuol ar y strategaeth.

---

[1] Mawrth 2002

[2] Gweler Atodiad A am yr aelodaeth a'r cylch gorchwyl.

Bydd y strategaeth yn adeiladu ar waith a wnaed eisoes gan Fwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg a'r Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg, ac a ddatblygwyd yn y ddau adroddiad ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gyflwynwyd gan CCAUC i'r Gweinidog.

Yn dilyn ymgynghoriad â'r sector, bydd y ddogfen yn cael ei chyflwyno i CCAUC yn yr hydref i'w hystyried yn ffurfiol ac yna ei chyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Pan fydd CCAUC yn ystyried y strategaeth, bydd yn nodi'n glir yr hyn y gellir ei gyflawni â'r lefel bresennol o adnoddau a'r hyn na fydd modd ei gyflawni heb fuddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Trafodir hyn o fewn y strategaeth, yn enwedig yng nghyd-destun y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio.

Mae'r Gweinidog wedi croesawu sefydlu'r Grŵp Llywio. Cyfarfu â Chadeirydd y Grŵp Llywio ym mis Ebrill 2004 ac mae hi wedi dweud wrtho ac i CCAUC ei bod hi'n edrych ymlaen at dderbyn y strategaeth yn yr hydref.

Y STRATEGAETH

1 NODAU

a) nodi mesurau a gweithgareddau i helpu'r sector addysg uwch yng Nghymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gyrraedd targed Llywodraeth Cynulliad Cymru yn *Ymgeisio'n Uwch*, sef:

> y gyfran o fyfyrwyr amser-llawn a rhan-amser mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg i gynyddu o 3.4% (2000/01) i 7% (2010/11);

a

b) nodi'r camau i'w cymryd i greu system gynaliadwy ar gyfer addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

2 TYBIAETHAU ALLWEDDOL

Graddfeydd amser ar gyfer cynllunio

2.1 I gyflawni nodau'r strategaeth, bydd angen cynllunio gweithredoedd a rhaglenni dros nifer o raddfeydd amser rhyngberthynol:

i) Tymor byr: Rhaglenni a newidiadau y mae angen eu cyflwyno mor fuan â phosibl i symbylu cynnydd yng ngalw a chyflenwad darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac i greu momentwm ac ymdeimlad cadarnhaol bod cynnydd yn cael ei wneud;
ii) Tymor canolig: Rhaglenni ar gyfer cyfnerthu enillion tymor-byr a hwyluso cynnydd pellach;
iii) Tymor hir: Y systemau a strwythurau sydd eu hangen i gynnal mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o safon uchel yn y dyfodol.

Cwrdd â galw myfyrwyr

2.2 Bydd natur galw myfyrwyr am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bob amser yn amrywiol ac mae'n debygol o gynnwys yr elfennau a grwpiau a ganlyn:

i) craidd o fyfyrwyr sy'n dymuno astudio'r cyfan neu ran sylweddol o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, gan fanteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael o fewn eu meysydd pwnc;
ii) myfyrwyr sy'n dymuno, neu y gellid eu hannog, i gymryd elfennau neu fodiwlau penodol o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hyn fod yn arbennig o wir yn achos pynciau galwedigaethol lle gall dwyieithrwydd wella cyfleoedd cyflogaeth a gyrfa. Mae'r penwmbra hwn o amgylch y craidd yn bwysig o safbwynt cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg;
iii) o fewn y categorïau uchod, gall anghenion myfyrwyr amser-llawn fod yn wahanol i anghenion myfyrwyr rhan-amser, gan gynnwys y rheiny sy'n dilyn cyrsiau addysg barhaus neu ddysgu gydol oes, y rheiny sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach, neu'r rheiny sy'n dymuno dilyn llwybr dysgu yn-y-gwaith. Bydd yn bwysig, felly, i ddarparwyr beidio â chanolbwyntio ar ddulliau traddodiadol o gyflwyno addysg cyfrwng Cymraeg yn unig;
iv) mewn rhai achosion, gall fod angen cymryd i ystyriaeth a yw myfyrwyr yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith ac a oes angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'r iaith i'w galluogi i ddilyn cwrs addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg;
v) bydd y cydbwysedd rhwng y gwahanol gategorïau o fyfyrwyr yn newidiol a bydd yn amrywio hefyd o sefydliad i sefydliad;
vi) bydd y ddarpariaeth yn datblygu fesul tipyn ac ni fydd yn gynhwysfawr ym mhob maes pwnc ar draws y sefydliadau yng Nghymru. Bydd crynodiadau ac arbenigeddau mewn sefydliadau neilltuol. Serch hynny, dylai fod pwyslais ar geisio

creu system sy'n gwneud cyfleoedd cyfrwng Cymraeg mor hygyrch â phosibl i fyfyrwyr.

Symbylu galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

2.3 Gall fod yn anodd sicrhau cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw, gan gynnwys galw cudd. Gall myfyrwyr, a darpar fyfyrwyr, gael eu dadrithio'n gynnar gan fod diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y pwnc addysg uwch o'u dewis. Ar y llaw arall, gall darpariaeth newydd fethu gan nad yw'n denu digon o fyfyrwyr. Bydd angen gweithredu cadarn i dorri'r cylch cythreulig hwn. Mewn perthynas â symbylu galw, mae hyn yn cynnwys hybu cyfleoedd a manteision darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhlith myfyrwyr a darpar fyfyrwyr sy'n gwneud eu penderfyniadau am addysg uwch. Mae hefyd yn golygu dylanwadu ar fyfyrwyr yn gynharach, yn enwedig yn yr ysgolion, fel bod modd eu hysgogi i barhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg drwodd at addysg uwch a hynny yng nghyd-destun buddsoddi mewn cynyddu'r ddarpariaeth sydd ar gael. Mae llawer o ffactorau yn dylanwadu ar ddewis myfyrwyr o ran ble i astudio, un ai yng Nghymru neu rywle arall yn y DU (neu y tu hwnt). Dylid edrych ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fel ffactor cadarnhaol, nid negyddol, yn y dewisiadau hyn. Hefyd mae angen pwysleisio anghenion cyflogwyr am staff dwyieithog, gan gynnwys effaith Cynlluniau Iaith Gymraeg ar staff yn y sector cyhoeddus.

Staffio

2.4 Un o ddadleuon sylfaenol y strategaeth yw y bydd buddsoddi mewn datblygu darpariaeth newydd neu symbylu galw yn ofer os nad yw nifer y staff yn cael ei gynyddu, a'i gynnal yn y tymor hir. Er y rhoddir sylw i'r posibilrwydd o ddefnyddio'r staff presennol i gyflwyno rhagor o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ystyrir na ellir gwneud gwelliannau sylweddol heb ddod â staff newydd i mewn i'r sector sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymrwymiad y sefydliadau

2.5 Er mwyn i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ennill ei lle ac er mwyn gallu ei hehangu a'i datblygu'n barhaus, mae'n rhaid i sefydliadau ymrwymo iddi fel rhan hanfodol a phrif-ffrwd o'u gweithgarwch.

Goblygiadau cyllidol

2.6 Drwy annog sefydliadau i fabwysiadu ymagwedd gynyddol strategol at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, bydd y strategaeth yn hybu defnydd effeithiol o'r cyllid sydd eisoes yn y system. Fodd bynnag, bydd gweithredu'r strategaeth yn gofyn am lawer mwy o adnoddau ariannol nag sydd gan CCAUC ar hyn o bryd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac felly bydd angen buddsoddi ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys drwy Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio CCAUC neu arian arall y gall ei ddyrannu i gwrdd â blaenoriaethau *Ymgeisio'n Uwch*.

2.7 Yn y cyd-destun hwn, cydnabyddir y gall cynigion gan y sector i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio sy'n gyson â'r strategaeth gyfrannu at ei gweithredu yn y tymor byr (gweler Adran 3 isod hefyd).

2.8 Er mwyn cyrraedd y targed yn *Ymgeisio'n Uwch*, bydd yn rhaid cael cyllid cychwyn sylweddol. Ond pan ddaw cyllid o'r fath i ben, bydd angen sicrhau bod system gyllido yn ei lle a fydd yn caniatáu i enillion gael eu cyfnerthu a'u parhau.

Cydweithio

2.9 Mae mabwysiadu ymagwedd gydweithiol at ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ganolog i'r strategaeth. Penderfynwyd sefydlu'r Grŵp Llywio ar ôl cydnabod bod angen i'r sector a CCAUC weithio gyda'i gilydd i sefydlu strategaeth genedlaethol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ni ddylid ystyried cydweithio yng nghyd-destun gwneud defnydd effeithiol o gyllid yn unig, ond hefyd yng nghyd-destun dwyn arbenigedd a sgiliau ynghyd o'r sector cyfan a chreu rhwydweithiau cryf i staff a myfyrwyr.

2.10 Hefyd mae'r strategaeth yn cydnabod bod ailgyflunio a chydweithio yn ganolog i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Bydd parodrwydd y sector i gofleidio hyn mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel mewn meysydd eraill, a dangos canlyniadau cadarnhaol yn sgil hyn, yn cael cryn effaith ar fuddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol mewn addysg uwch yng Nghymru.

Statws y strategaeth

2.11 Dogfen esblygol yw'r strategaeth. Nid yw'n darparu atebion yn awr i'r holl faterion y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae'n cynnig nifer o raglenni a gweithredoedd y mae gwybodaeth ac arbenigedd aelodau'r Grŵp Llywio wedi'u harwain i gredu y byddant yn dechrau cael effaith o ran cyflawni nodau'r strategaeth. Caiff y rhain eu haddasu a'u datblygu yn sgil profiad a chynnydd. Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn ymwneud hefyd â'r gwaith ymchwil a pharatoi sydd ei angen – astudiaethau a chasglu tystiolaeth, cynllunio, creu fframweithiau cydweithiol a rhwydweithiau cefnogol. Bydd canlyniadau'r rhain yn cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth ymhellach.

3 CRONFA AILGYFLUNIO A CHYDWEITHIO CCAUC

3.1 Penderfynodd Bwrdd Is-Gangellorion Prifysgol Cymru yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2003 i gefnogi cynnig i Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio CCAUC a baratowyd gan Fwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg, sy'n cynrychioli'r holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae'r cynnig yn gyson ag egwyddorion strategaeth y Grŵp Llywio sydd wedi nodi ei fod yn ei gefnogi gan y bydd, os yw'n llwyddiannus, yn cynnig ffordd o symud ymlaen â'r strategaeth, yn enwedig yn y tymor byr tra bo Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael cyfle i ystyried y goblygiadau cyllido tymor-hir. Mae'r cynnig yn cael ei drafod â CCAUC. Bydd y Grŵp Llywio yn ymwneud â hybu cynnydd y gweithgareddau y ceisir cyllid ar eu cyfer.

3.2 Mae'r cynnig i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio yn cynnwys Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion a Chymrodoriaethau Addysgu (gweler Adran 5 isod).

3.3 Fel y dengys nodau'r strategaeth, ni ellir gwireddu dyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru dros ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg, a chwrdd â'r targed penodol sydd ynghlwm wrth y rhain, heb system a all gyflawni a chynnal yn effeithiol yr ehangu sydd ei angen. Mae trafodaethau ar y cynnig i'r Gronfa hefyd yn cynnwys ymgymryd â gwerthusiad dewisiadau o fodelau posibl ar gyfer cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ni ddymunai'r Grŵp Llywio ddylanwadu ar gasgliadau gwerthusiad o'r fath, ond o ystyried ei farn gadarn na ellir ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg heb ymagwedd gydweithiol a chydgysylltiedig, fe ddisgwyliai weld pwyslais ar gryfhau cydweithio i raddau mwy neu lai, a all gynnwys neu beidio â chynnwys peth ailgyflunio cyn belled ag y mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cwestiwn. Hyd yn oed heb yr hwb a ddarparwyd gan y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio, roedd yn debygol y byddai'r strategaeth wedi argymell astudiaeth o fodelau cydweithio. (Gan fod y cynnig i'r Gronfa yn parhau i gael ei drafod, nid yw'r strategaeth yn cynnwys costau'r gweithgaredd hwn.)

3.4 Beth bynnag yw canlyniad y gwerthusiad o ddewisiadau, bydd yr angen i fuddsoddi mewn datblygu a recriwtio staff, marchnata a symbylu galw, a chynyddu darpariaeth yn parhau. Bydd angen i sefydliadau a'r sector yn ei gyfanrwydd barhau i gymryd camau i greu amgylchedd y gall darpariaeth cyfrwng Cymraeg ddatblygu o'i fewn.

4 CYLLID PRIF-FFRWD AR GYFER DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG

4.1 O safbwynt creu system gynaliadwy at y dyfodol, ystyrir bod cyllid prif-ffrwd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn allweddol. Mae CCAUC yn cefnogi'r costau ychwanegol o gyflwyno darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg drwy dalu premiwm o 0.26 ar yr uned adnodd safonol ar gyfer cofrestriadau ar fodiwlau neu gyrsiau cyfrwng Cymraeg; telir hwn fel rhan o'r cyllid rheolaidd ar gyfer addysgu. Byddai'r Grŵp Llywio yn argymell y dylai'r Cyngor, mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Llywio ynghylch y cylch gorchwyl, ymgymryd ag astudiaeth i gael

amcan manylach o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac adolygu'r premiwm ar sail hyn.

4.2 Mater cymhleth yw hwn ac ni fydd yr un ystyriaethau yn berthnasol o anghenraid ym mhob cyd-destun. Bydd angen penderfynu beth yw'r costau ychwanegol ar ben y rheiny y mae'r cyllid creiddiol ar gyfer addysgu yn darparu ar eu cyfer, a lefel y costau hyn mewn gwahanol amgylchiadau. Er enghraifft, gall yr amodau fod yn wahanol lle ceir màs critigol o ddarpariaeth/staff, lle mae'r ddarpariaeth a chofrestriadau ar raddfa lawer llai, neu lle mae'r ddarpariaeth newydd ei sefydlu.

4.3 Yn ogystal â darganfod lefel y costau ychwanegol, byddai'r astudiaeth yn ystyried ai system bremiwm yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu cymorth prif-ffrwd, neu a ellir amrywio'r ffordd y caiff ei ddyrannu. Er enghraifft, nid yw'r dull presennol yn ysgogi cydweithio.

4.4 Tra bo cynrychiolwyr y sector AU ar y Grŵp Llywio, yn arbennig, o'r farn nad yw lefel y premiwm yn adlewyrchu'n ddigonol gostau ychwanegol darpariaeth cyfrwng Cymraeg, rhaid cydnabod, o safbwynt CCAUC, nad yw'r Cyngor yn debygol o allu cynyddu lefel y premiwm rhyw lawer heb i hyn effeithio ar feysydd eraill a gefnogir drwy gyllid ar gyfer addysgu, oni cheir cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad. Hefyd, wrth osod lefel y premiwm, rhaid cofio y byddai pob SAU yn gwneud y pwynt nad ydynt yn ystyried bod yr uned adnodd yn gyffredinol yn adlewyrchu costau addysgu.

4.5 Mae'r Cyngor eisoes wedi gwneud amcangyfrifon sy'n awgrymu, pe bai'r sector yn cyrraedd y targed yn *Ymgeisio'n Uwch*, y gallai fod cynnydd blynyddol yn y dyraniadau premiwm a allai gyrraedd £2m yn ychwanegol erbyn 2010/11, heb unrhyw newid yn lefel y premiwm, heblaw am godiadau CMC (GDP) a allai gael eu cymhwyso at y grant rheolaidd.

4.6 Ar ôl cwblhau'r astudiaeth, pe bai'r Cyngor yn barnu bod modd cyfiawnhau cynnydd yn y premiwm i lefel neilltuol neu newid yn ei ddull o ddyrannu'r premiwm, byddai amcangyfrifon o'r effaith ariannol yn cael eu gwneud (gan gynnwys caniatáu ar gyfer codiadau mewn cofrestriadau yn unol â'r targed yn *Ymgeisio'n Uwch*). Yna byddai'r Cyngor yn penderfynu a allai gwrdd â'r rhain o fewn ei adnoddau presennol neu a ddylid cyflwyno achos i Lywodraeth Cynulliad Cymru i geisio cymorth ychwanegol.

5 DATBLYGU A RECRIWTIO STAFF

Y staff cyfrwng Cymraeg presennol

5.1 Er mwyn darganfod pa botensial sydd ar gyfer cynyddu addysgu cyfrwng Cymraeg drwy ddefnyddio'r staff Cymraeg presennol yn y sector, mae angen cael darlun dibynadwy o'r sefyllfa mewn perthynas â staff cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â'r data a gyflwynir gan sefydliadau AU i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Cynigir y dylid ymgymryd ag astudiaeth o dan nawdd yr Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg. (Bydd hon yn adeiladu ar astudiaeth gynharach gan Dr Cen Williams, *Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch, Tueddiadau a Dyheadau, 2003*).

5.2 Bydd yr astudiaeth yn ystyried ffactorau megis nifer y staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a faint o addysgu a wnânt; a oedd addysgu cyfrwng Cymraeg yn rhan ffurfiol o'u dyletswyddau pan gawsant eu penodi; a phroffil oedran a statws cyflogaeth staff cyfrwng Cymraeg. Bydd hefyd yn edrych ar nifer y staff a allai addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg pe bai'r amgylchiadau'n caniatáu: ni fyddai'r agwedd hon ar yr astudiaeth yn edrych ar faterion datblygu staff yn unig, ond hefyd ar y ffactorau ymarferol sy'n rhwystro staff rhag cymryd rhan mewn addysgu cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal â darparu gwybodaeth ar gyfer cynllunio nifer y staff y bydd eu hangen yn y dyfodol, gall yr astudiaeth awgrymu ffyrdd o ddod â rhai o'r staff presennol i mewn i addysgu cyfrwng Cymraeg, a nodi anghenion datblygu'r staff.

Cynyddu nifer y staff cyfrwng Cymraeg

5.3 Serch hynny, mae'r Grŵp Llywio yn parhau'n argyhoeddedig nad oes llawer o le ar gyfer ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy ddefnyddio'r staff presennol. Mae pryder eisoes (fel y nodwyd yn adroddiad CCAUC i'r Gweinidog ym mis Chwefror 2003) ynghylch breuder y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol mewn llawer achos oherwydd nifer y staff allweddol sy'n agosáu at oedran ymddeol. Pan fydd staff yn gadael, mae'n bosibl na fydd ymgeiswyr â chymwysterau neu brofiad addas ar gael i lenwi eu swyddi. Bydd y gallu i gynnal, ac yn sicr i ehangu, darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dibynnu yn y tymor hir ar ddod â staff newydd i mewn i addysg uwch sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.4 Fel y nodwyd uchod, mae cais i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio yn cynnwys Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion a Chymrodoriaethau Addysgu. Ystyrir bod cyflwyno cynllun ysgoloriaethau i raddedigion, a gynigiwyd yn gyntaf i'r Gweinidog ym mis Chwefror 2003, yn rhan annatod o'r strategaeth. Hefyd, yn y tymor canolig, dylid parhau â'r Cynllun Ysgoloriaethau Addysgu Cyfrwng Cymraeg a gychwynnwyd gan CCAUC yn 2003/04, fel mesur dros dro i ddechrau, oherwydd bod ganddo'r fantais o ddarparu cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr ymchwil presennol neu rai sy'n cwblhau eu cwrs, tra bydd y cynllun i raddedigion yn dod â myfyrwyr newydd drwodd. Bydd y ddau gynllun yn darparu sylfaen ar gyfer gyrfa mewn addysg uwch, nid yn unig mewn sefydliadau lle mae ymchwil yn agwedd bwysig ar y genhadaeth ond hefyd ar draws y sector yn ei gyfanrwydd lle mae gradd uwch yn angenrheidiol ar gyfer llawer o apwyntiadau. Ond mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r disgyblaethau galwedigaethol hynny lle gall y wybodaeth ac arbenigedd i gychwyn gyrfa mewn addysg uwch ddod drwy gymhwysedd galwedigaethol yn hytrach na gradd ymchwil.

5.5 Yn ei hanfod, mae'r Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu yn cynnig penodiad blwyddyn (y mae'r sefydliadau yn ogystal â CCAUC yn gwneud cyfraniad ariannol ato) pryd y mae disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd â phum awr o addysgu cyfrwng Cymraeg yr wythnos a datblygu darpariaeth newydd sy'n gyfwerth ag o leiaf un modiwl 20-credyd. Mae'r Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion yn cynnig ysgoloriaethau ymchwil o dair neu bedair blynedd a blwyddyn ychwanegol debyg i'r Cymrodoriaethau Addysgu. Bydd y myfyrwyr yn cynnig pum awr o addysgu cyfrwng Cymraeg yr wythnos o ail flwyddyn eu hysgoloriaeth ymlaen. Felly, yn ogystal â chynyddu'r nifer o bobl a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y tymor canolig i'r tymor hir, bydd y cynlluniau yn arwain at gynnydd ar unwaith mewn addysgu cyfrwng Cymraeg.

5.6 Cynigir y dylai'r Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion ddarparu ar gyfer hyd at ddeg ysgoloriaeth y flwyddyn am gyfnod cychwynnol o bum mlynedd (o 2005/06); yna câi dyfodol y Cynllun ei adolygu. Byddai'r Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu yn cynnig chwe chymrodoriaeth y flwyddyn hyd 2007/08. Mae'r Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion yn arbennig yn gofyn am fuddsoddi parhaus dros gyfnod o amser. Byddai gweithredu'r Cynllun ar sail ysgoloriaethau newydd bob blwyddyn am bum mlynedd yn golygu bod angen ei gyllido hyd 2014/15 pryd y câi'r ysgoloriaethau olaf eu cwblhau.

	Amserlen	Cyllid (amcangyfrif) (£)					
		2004/05	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion 10 ysgoloriaeth newydd y flwyddyn (o 2005/06)	2004/05 hyd 2009/10 (a hyd at gwblhau'r ysgoloriaethau a ddyfarnwyd)	Cyfnod paratoi	156,850	325,740	506,730	699,880	905,250
Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu 6 chymrodoriaeth y flwyddyn	2004/05 hyd 2007/08	50,000 i 75,000 (y cynllun CCAUC presennol)	80,955	83,160	85,365		
Cynllun posibl ar gyfer disgyblaethau galwedigaethol wedi'u seilio ar gymwyseddau	2005/06 hyd 2007/08		40,000	80,000	80,000		
Gweinyddu			17,000	7,100	7,325	7,550	7,800
Cyfanswm			294,805	496,000	679,420	707,430	913,050

Nodyn: Mae'r ffigurau ar gyfer y Cynlluniau Ysgoloriaethau i Raddedigion a Chymrodoriaethau Addysgu yn gyson â'r cynnig sy'n cael ei ystyried o dan y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio. Defnyddiwyd y Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu wrth amcangyfrif cost y cynllun posibl ar gyfer disgyblaethau galwedigaethol wedi'u seilio ar gymwyseddau.

Datblygu staff

5.7 Ystyria'r Grŵp Llywio fod datblygu staff yn faes amlwg ar gyfer cydweithio rhwng sefydliadau. Bydd yn bwysig gweithio gyda swyddogion datblygu staff yn y sefydliadau (gan gynnwys y Rhwydwaith Datblygu Staff Addysg Uwch (WHESDN)) ac Academi Addysg Uwch y DU i sicrhau bod rhaglenni cyfrwng Cymraeg o'r un safon â rhaglenni cyfrwng Saesneg.

5.8 Mae angen ystyried nifer o agweddau ar ddatblygu staff cyfrwng Cymraeg:

i) rhaglen hyfforddi gychwynnol i fyfyrwyr ymchwil ar y cynllun ysgoloriaethau yn y flwyddyn gyntaf yr ymgymerant ag addysgu israddedigion, neu i fyfyrwyr ymchwil eraill a all gael cyfle i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

ii) hyfforddiant i Gymrodyr Addysgu Cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn hefyd yn ffurfio rhaglen hyfforddi fwy cynhwysfawr ym mlwyddyn derfynol y cynllun ysgoloriaethau i baratoi myfyrwyr ar gyfer darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

iii) hyfforddiant sefydlu i staff newydd a llwybrau dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg ar gyfer y rhaglenni hyfforddi achrededig mewn sut i addysgu y mae disgwyl i staff addysg uwch newydd eu cwblhau bellach.

iv) rhaglenni hyfforddi a datblygu i helpu staff presennol i gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gall hyn gynnwys gloywi iaith a magu hyder, cymorth gyda thermau sy'n benodol i'r pwnc, a datblygu adnoddau. Bydd canlyniadau'r astudiaeth y cyfeiriwyd ati yn 5.1 a 5.2 uchod yn berthnasol yma.

v) datblygiad staff mewn perthynas ag agweddau penodol ar wella dysgu ac addysgu mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn gynnwys cynadleddau a seminarau i ledaenu arfer da yn ogystal â sesiynau hyfforddi.

5.9 Cynigir datblygu rhaglenni datblygu staff priodol, gan gydategu neu fanteisio ar unrhyw arfer da presennol yn y sefydliadau. Dylid sefydlu fframweithiau ar gyfer cyflawni hyn hefyd.

	Amserlen	Cyllid (amcangyfrif) (£)		
		2005/06	2006/07	2007/08
Rhaglen hyfforddi i fyfyrwyr ymchwil/cymrodyr addysgu	2005/06 ymlaen	30,000	10,000	10,000
Hyfforddiant sefydlu / rhaglen achrededig i staff newydd	2005/06 ymlaen	70,000	50,000	50,000
Hyfforddiant i staff presennol i'w galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	2005/06 ymlaen (bydd canlyniadau astudiaeth 2004/05 y cyfeiriwyd ati yn 5.1 a 5.2 yn berthnasol yma)	30,000	20,000	20,000
Gweithgareddau gwella dysgu ac addysgu	2005/06 hyd 2007/08	20,000	20,000	20,000
Cyfanswm		150,000	100,000	100,000

Nodyn: Symiau arwyddol yw'r rhain ar hyn o bryd. Nid yw'r ffigurau yn annhebyg i'r gyllideb a awgrymwyd ar gyfer gweithgareddau datblygu staff yn adroddiad Chwefror 2003 CCAUC i'r Gweinidog, er i lefel uwch o gyllid gael ei hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyntaf am waith datblygu cychwynnol.

6 MARCHNATA A DILYNIANT

6.1 Bydd cynyddu niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at darged Llywodraeth y Cynulliad o 7% yn gofyn am strategaeth farchnata a dilyniant tymor-hir a fydd yn rhan allweddol o'r strategaeth ehangach sy'n cael ei chyflwyno gan y Grŵp Llywio. Bydd y strategaeth farchnata, fel y brif strategaeth ei hun, yn un ddatblygol, a fydd yn ymateb i ddyheadau myfyrwyr ac i'r ddarpariaeth newydd a gaiff ei datblygu o flwyddyn i flwyddyn

6.2 Mae tystiolaeth gadarn ar gael bod cyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac, yn gynyddol, yn y sector preifat yn ogystal, yn chwilio am bobl a all weithio'n effeithiol a chywir yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn ddwyieithog. Enghraifft o hyn yw adroddiad *Sgiliau Dyfodol Cymru/Future Skills Wales* (Tachwedd 2003), sef arolwg o anghenion 6,000 o gyflogwyr ar draws Cymru. Mewn adroddiad cynhwysfawr yn nodi anghenion cyflogwyr a'r problemau a wynebant wrth recriwtio a phenodi staff, nodwyd canfyddiad clir y bydd y galw am unigolion a all weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu dros y tair blynedd nesaf. Bydd angen i'r strategaeth farchnata gydnabod y ffactor yma a sicrhau mewnbwn gan gyflogwyr yn y broses o ddatblygu'r strategaeth.

6.3 Ni fydd yn bosibl gweithredu'r argymhellion yn y strategaeth farchnata (heblaw am rai o'r cynlluniau tymor-byr) drwy ddefnyddio'r adnoddau presennol yn unig. Un flaenoriaeth fydd penodi Swyddog Marchnata amser-llawn i'w [l]leoli o fewn y strwythur canolog a nodir yn Adran 8.

6.4 Un o'r blaenoriaethau fydd perthnasu'r strategaeth farchnata a dilyniant addysg uwch i'r hyn sy'n digwydd mewn sectorau eraill, yn enwedig y sector ôl-16. Bydd y cysylltiadau rhwng CCAUC ac ELWa yn elfen bwysig yma. Wrth gynllunio ar sail bynciol neu ddisgyblaethol dylid sefydlu cyswllt rhwng grwpiau perthnasol o fewn y sector addysg uwch, er enghraifft, paneli maes a weinyddir gan yr Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg a rhwydweithiau o fewn y sector ôl-16. Gall hyn fod yn ffordd o hybu cydweithredu rhyng-sefydliadol o ran marchnata, yn ogystal â datblygu a chynnal darpariaeth. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i newidiadau diweddar ac arfaethedig o fewn y sector ôl-16.

6.5 Mae'n hanfodol bod y strategaeth yn cael ei llunio a'i datblygu ar sail tystiolaeth a data dibynadwy. Mae angen ymchwilio i'r ffordd orau o gyflwyno gwybodaeth, cyn fanyled â phosibl, am y niferoedd sy'n astudio i Safon Uwch, Safon Uwch Gyfrannol, ac am gymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod 2004/05 bydd y posibilrwydd o greu system flynyddol swyddogol i gasglu'r data angenrheidiol yn cael ei archwilio. Nodir pwysigrwydd gweithio gyda chyrff perthnasol eraill i osgoi dyblygu.

6.6 Yn ogystal â chasglu data a ffigurau ystyrir bod angen gwneud ymchwil ansoddol er mwyn adnabod neu ganfod dyheadau ac agweddau myfyrwyr a darpar fyfyrwyr. Mae rhywfaint o ymchwil wedi ei wneud ar ddyheadau myfyrwyr mewn perthynas â dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys ymchwil gan Dr Cen Williams yn ei gyfnod yntau fel swyddog datblygu'r UDACC. Ystyrir bod angen gwneud ymchwil pellach i adeiladu ar y gwaith hwnnw ac i ehangu arno. Bydd ymarferiad ymchwil cyfyngedig yn digwydd yn gynnar yn 2004/05 gan ganolbwyntio ar hyd at bymtheg o ganolfannau. Teimlir hefyd fod potensial i sefydliadau addysg uwch ystyried agweddau tuag at addysg trwy gyfrwng y Gymraeg fel maes ymchwil.

6.7 Bydd nifer o gynlluniau ac argymhellion sylweddol yn cael eu cynnig ar gyfer y tymor hir (gweler isod) ond ar gyfer y tymor byr argymhellir canolbwyntio ar ddwy elfen ar gyfer cyfnod cychwynnol y strategaeth farchnata, sef:

- Marchnata manteision dwyieithrwydd fel sgil ar gyfer datblygiad gyrfa a chyfleoedd swyddi;
- Canolbwyntio ar y meysydd o gryfder cymharol ar hyn o bryd o ran darpariaeth. Wrth i'r ddarpariaeth ehangu a darpariaeth newydd esblygu bydd modd adeiladu ar y seiliau hyn.

Mae'n hanfodol creu trefn flynyddol o gydweithio gyda'r ysgolion a'r sefydliadau addysg bellach i hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch. Bwriedir sefydlu patrwm o drefnu cyfres o ffeiriau/gweithdai i'w cynnal mewn gwahanol ardaloedd gan wahodd myfyrwyr o'r rhanbarth i'w mynychu. Bwriedir dechrau ar y gwaith hwn yn 2004/05.

6.8 Fel y crybwyllwyd eisoes, bydd angen penodi Swyddog Marchnata a Dilyniant i weithio o fewn yr Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg neu unrhyw strwythur canolog a sefydlir (fel y nodwyd yn adroddiad y Cyngor Cyllido i'r Gweinidog, Chwefror 2003). Byddai dyletswyddau'r Swyddog – yn ogystal â chyfrannu at rai o'r cynlluniau a nodwyd yn barod – yn cynnwys:

- cydweithio'n agos gyda swyddogion ac adrannau marchnata'r sefydliadau (gweler isod);
- diweddaru cronfa ddata/gwefan yn amlinellu'r holl ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y sefydliadau;
- cyfrannu at y gwaith o farchnata gwerth addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithrwydd mewn cydweithrediad a chyrff allanol megis Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- mewn cyswllt â'r pwynt uchod, ystyried ffyrdd o roi cyhoeddusrwydd i ddatblygiadau cyfrwng Cymraeg a llwyddiannau yn y maes;
- cyfrannu at y gwaith o awgrymu blaenoriaethau strategol ar gyfer datblygu;
- datblygu llenyddiaeth, taflenni ac ati i hyrwyddo cyfleoedd i astudio drwy'r Gymraeg.

6.9 Dylai'r sefydliadau unigol sicrhau bod trefn glir a diamwys ganddynt o farchnata darpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd yr un mor amlwg ag unrhyw ddarpariaeth arall. Dylai hyn gynnwys nodi'n glir yr holl ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prosbectws yn flynyddol, ar y wefan ac mewn lleoedd eraill.

6.10 Yn ystod rhan gyntaf 2004/05 caiff y cynlluniau ar gyfer 2004/05 hyd 2006/07 eu datblygu'n fanwl. Ar yr un pryd dechreuir ystyried cynlluniau ar gyfer y tymor hwy.

6.11 Bydd modd gweithredu rhai cynlluniau tymor-byr yn seiliedig ar gyfuniad o'r adnoddau presennol a nawdd tymor-byr o ffynonellau eraill. Mae'r costau a nodir yma ar gyfer y cyfnod 2005/06 hyd 2007/08.

	Amserlen	Cyllid (amcangyfrif) (£)		
		2005/06	2006/07	2007/08
Penodi Swyddog Marchnata a Dilyniant	O 1 Medi 2005	30,000	30,000	30,000
Ymchwil / casglu data	2005/06 ymlaen	25,000	25,000	25,000
Ymgyrch farchnata	2005/06 ymlaen	50,000	50,000	50,000
Llenyddiaeth	2005/06 ymlaen	10,000	10,000	10,000
Cyfanswm		115,000	115,000	115,000

Nodyn: Symiau arwyddol yw'r rhain ar hyn o bryd. Gan gynnwys cyflog y Swyddog Marchnata a Dilyniant, maent hwy fymryn yn uwch na'r ffigur a gynigiwyd yn wreiddiol ar gyfer ymchwil marchnata/gweithgareddau marchnata yn adroddiad Chwefror 2003 CCAUC i'r Gweinidog.

7 DATBLYGU DARPARIAETH

7.1 Mae'r Grŵp o'r farn y bydd angen cryn fuddsoddi ychwanegol i sicrhau cynnydd sylweddol mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Serch hynny, mae'n pwysleisio mor bwysig ydyw i'r sefydliadau wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r cyllid sydd eisoes ar gael, gan gynnwys Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg CCAUC a'r cyllid sydd ar gael drwy'r Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu ymagwedd strategol at gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod cynigion datblygu ar sail gadarn ac yn cael eu rheoli'n dda. Os nad yw'r strwythurau cynllunio a gweithredu hyn yn eu lle, bydd yn anodd sicrhau bod unrhyw gyllid ychwanegol a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl.

7.2 Er mwyn ehangu darpariaeth, yn enwedig ar sail gydweithiol, mae'r Grŵp Llywio o'r farn bod angen rhoi fframweithiau yn eu lle a fydd yn hwyluso ac yn ysgogi cydweithio. Bydd angen i'r rhain gael eu cysylltu â systemau cyllido ac â threfniadau ymarferol megis amserlennu, strwythur cwrs a semesterau cydnaws, dulliau asesu a dilysu. Byddant yn hanfodol o ran sicrhau datblygu modiwlau ac adnoddau a chyflwyno darpariaeth gydweithiol. Mae'r materion hyn yn berthnasol nid yn unig i gydweithio rhyng-sefydliadol, ond hefyd i gydweithio o fewn sefydliadau, lle gall y gystadleuaeth am fyfyrwyr a chyllid ac ymdeimlad o fod yn berchen ar gyrsiau fod yr un mor ddwys â rhwng sefydliadau.

7.3 Ar ôl cwblhau'r gwerthusiad o ddewisiadau, datblygir yr adran hon ymhellach o fewn fframwaith unrhyw fodel y cytunir arno at y dyfodol. Bydd y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio yn ffynhonnell cyllid bosibl ar gyfer gweithredu hyn. Nodir isod rai o'r ffactorau y gellir disgwyl iddynt ddylanwadu ar sut y datblygir darpariaeth.

7.4 Dylai fod pwyslais ar harneisio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gyda'i photensial ar gyfer darparu rhaglenni cydweithiol ac adnoddau cyfrwng Cymraeg hygyrch i staff a myfyrwyr. Mae angen gosod datblygiadau yn gadarn yng nghyd-destun estyn dewisiadau a darparu profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr.

7.5 Mae angen gwneud gwaith datblygu ar bynciau unigol yn ogystal ag ystyried y posibilrwydd o ddatblygu rhaglenni rhyngddisgyblaethol neu generig. Yn arbennig mewn meysydd pwnc lle nad oes llawer neu ddim addysgu cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, mae cynlluniau ar gyfer cynyddu darpariaeth yn debygol o ganolbwyntio, ar y dechrau o leiaf, ar ddarparu modiwlau, yn enwedig modiwlau creiddiol, drwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na chyrsiau cyfan. Yn ogystal ag estyn yr ystod o bynciau sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg, bydd hyn yn cwrdd ag anghenion llawer o fyfyrwyr sy'n dymuno cyfuno astudio drwy'r Gymraeg a'r Saesneg yn eu cyrsiau. Mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i ddiogelu, ac ehangu fel y bo'n briodol, meysydd pwnc lle mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gymharol gryf.

7.6 O bwys hefyd yw rhaglenni rhan-amser sy'n annog dysgu gydol oes a mynediad ehangach i addysg uwch ac sy'n cynnig posibiliadau ar gyfer cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

7.7 Bydd yn hanfodol galluogi myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddarparu rhaglenni cymorth a magu hyder priodol. Gellir rhoi ystyriaeth hefyd i rôl sgiliau cyfathrebu a fydd yn galluogi myfyrwyr i ymdrin â'u pynciau mewn swydd broffesiynol.

7.8 Rhai argymhellion ar gyfer datblygu darpariaeth yw: sawl sefydliad yn cyfrannu at baratoi a chyflwyno modiwlau, un sefydliad yn gweithredu fel darparwr arweiniol, neu ddatblygu crynodiadau o ddarpariaeth mewn un sefydliad neu ragor gan ddibynnu ar eu harbenigedd.

7.9 Ystyria'r Grŵp Llywio y byddai'n bosibl creu rhwydwaith cynhwysfawr o baneli pwnc tebyg i'r paneli a sefydlwyd eisoes gan yr Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg. Byddai'r rhain yn edrych ar y ddarpariaeth yn eu disgyblaethau penodol mewn ffordd strategol. Yn ogystal â phaneli pwnc-benodol, byddid yn ystyried rhai grwpiau generig hefyd, er enghraifft, ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu neu roi cymorth ychwanegol i fyfyrwyr i loywi eu Cymraeg. Mae'r paneli presennol eisoes yn cynnwys un ar ddysgu gydol oes. Disgwylir y byddai'r rhwydwaith yn sefydlu cysylltiadau â'r Academi Addysg Uwch er mwyn manteisio ar ei harbenigedd a'i hadnoddau ym maes gwella dysgu ac addysgu, ar gyfer pynciau neilltuol ac ar faterion generig.

7.10 Mae'r Grŵp Llywio yn ymwybodol o atyniad y brifddinas, Caerdydd, i lawer o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith. Bydd angen i raglenni datblygu gymryd i ystyriaeth sut y gellir cwrdd ag anghenion y myfyrwyr hyn yn y tymor hir heb danseilio sefyllfa'r tri sefydliad, PC Aberystwyth, PC Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin, sydd â darpariaeth cyfrwng Cymraeg gymharol gryf. Ym marn y Grŵp, mae'n hanfodol i'r holl sefydliadau ddangos parodrwydd i gydweithio.

7.11 Byddai disgwyl i gais am gymorth ariannol i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg gynnwys cynigion ar gyfer darpariaeth newydd wedi'i chyflwyno gan rwydweithiau neu gonsortia o sefydliadau a chan sefydliadau unigol, ar sail argymhellion y paneli pwnc i'r Grŵp Llywio mae'n debyg. Yn ogystal â rhoi sylw i gynnwys y cwricwlwm, byddai'r gwaith yn cynnwys datblygu adnoddau, cyfieithu, a throsi darpariaeth yn becynnau cwrs/modiwl, gan gynnwys cyfryngau electronig. Gan ddibynnu ar natur y ddarpariaeth, a'r elfen technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gallai gostio rhwng £5,000 ac £20,000 i ddatblygu modiwlau.

7.12 Cydnabuwyd yn ogystal fod y materion a nodwyd uchod ynghylch sicrhau digon o staff i gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn berthnasol hefyd i allu sefydliadau i ymgymryd â gwaith datblygu o bwys. Felly gall fod angen defnyddio cyllid i dalu am gostau dadleoli, er mwyn sicrhau nad yw'r addysgu presennol yn cael ei beryglu, ac i brynu arbenigedd academaidd a phroffesiynol i mewn, drwy gyfrwng secondiadau a chontractau, i ddatblygu cynnwys, sefydlu termau ac ati. Hefyd bydd angen cymorth ar gyfer y paneli pwnc i alluogi'r aelodau i ymrwymo o ddifrif i'w gwaith.

8 CYMORTH CANOLOG

8.1 Bydd gweithredu'r gweithgareddau a gynhwysir o fewn y strategaeth hon, ac arweiniad i sefydliadau ar ddatblygu darpariaeth yng nghyd-destun y strategaeth, yn gofyn am gydgysylltu a chymorth canolog y gellid eu darparu drwy ddatblygu'r Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg yn Ganolfan Genedlaethol fel y cynigiwyd yn adroddiad mis Chwefror 2003 CCAUC i'r Gweinidog. Bydd yr union ffordd y trefnir hyn yn dibynnu ar ganlyniad y cais i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio. Serch hynny, ystyria'r Grŵp fod y lefel sylfaenol o adnoddau sydd ei hangen yn aros fwy neu lai fel y nodwyd yn adroddiad 2003.

8.2 Bydd angen rhywfaint o sicrwydd ynghylch y lefel o gyllid a fydd ar gael yn ystod y blynyddoedd cynnar (er enghraifft, y tair blynedd cyntaf) i sicrhau bod modd recriwtio a chadw staff addas, yn enwedig o ystyried y gall y nifer o ymgeiswyr Cymraeg sy'n meddu ar yr arbenigedd a'r medrau angenrheidiol fod yn weddol fach.

8.3 Mae'n debyg y byddid yn dadlau o blaid adeiladu tîm cymorth canolog mewn camau i sicrhau cynnydd mewn ffordd drefnus a hydrin ond hefyd i allu dangos canlyniadau pendant ar adeg gynnar. Bydd nifer y staff yn dibynnu ar y model y penderfynir ei ddilyn wedi gwerthuso'r dewisiadau.

9 YMRWYMIAD Y SECTOR A'R SEFYDLIADAU

9.1 Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod angen buddsoddiad ariannol ychwanegol er mwyn gallu ei gweithredu. Serch hynny, er mwyn i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fod yn gynaliadwy a chael ei hehangu a'i datblygu'n barhaus, mae'r Grŵp Llywio yn credu'n gryf bod yn rhaid i sefydliadau ymrwymo iddi fel rhan hanfodol a phrif-ffrwd o'u gweithgarwch. Rhaid i'r ymrwymiad hwn gynnwys defnyddio cyllid creiddiol, yn ogystal â ffrydiau cyllido cyfrwng Cymraeg penodol. Ymhellach, mae'r ymrwymiad yn ymestyn y tu hwnt i ddefnyddio cyllid. Mae hefyd yn cynnwys gwneud darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o gynllunio a chymryd yr iaith Gymraeg i ystyriaeth ym mhob agwedd ar weithgarwch sefydliadol, megis recriwtio myfyrwyr, penodi a datblygu staff, gwella dysgu ac addysgu, ehangu mynediad, trydedd genhadaeth ac ymchwil.

9.2 Yn yr un modd, rhaid i sefydliadau ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i wneud y defnydd gorau o adnoddau – ariannol, dynol, ffisegol, technolegol – er mwyn hybu twf yn amrywiaeth a maint darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mewn cofrestriadau, ac i gynnig y dewis ehangaf posibl i fyfyrwyr mewn SAUau ar draws Cymru.

9.3 Dylid ystyried bod y lefel hon o ymrwymiad yn hanfodol er mwyn cyrraedd y targed penodol a osodwyd gan y Gweinidog ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn *Ymgeisio'n Uwch*. Rhaid cofio hefyd gyfrifoldebau'r sefydliadau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, y cyfraniad y mae disgwyl iddynt ei wneud i'w cymunedau, a'u rhan mewn cwrdd â dyhead cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu Cymru ddwyieithog.

10 TARGEDAU

10.1 Mae'r Grŵp Llywio yn sylweddoli nad yw'r strategaeth yn cynnwys targedau eto. Mae targedau ac allbynnau penodol yn cael eu gosod ar gyfer y Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion a'r Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu fel rhan o'r cynnig i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio. Gwneir gwaith manwl ar dargedau a chynlluniau gweithredu ar gyfer meysydd eraill y strategaeth yn ystod 2004/05; bydd y rhain i ryw raddau yn dibynnu ar ganlyniadau'r gwerthusiad dewisiadau ac ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r strategaeth. Pennir targedau a chanlyniadau yn nhermau'r rhaglenni a gynigir ond hefyd yn nhermau eu cyfraniad at y targed cyffredinol yn *Ymgeisio'n Uwch* ar gyfer cynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Bydd angen cyfuno'r rhain â'r targedau cyfrwng Cymraeg y mae sefydliadau unigol yn eu gosod iddynt hwy eu hunain yn gyfraniad at gyrraedd y nodau yn *Ymgeisio'n Uwch*. Bydd disgwyl i'r sefydliadau felly fod yn barod i rannu eu cynlluniau a'u targedau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel bod strategaeth gynhwysfawr ac integredig i'r sector cyfan.

ATODIAD A: GRŴP LLYWIO AR GYFER DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG MEWN ADDYSG UWCH

AELODAETH

Cadeirydd

Andrew Green	Llyfrgellydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Aelodau

Gareth Jones	Cadeirydd, Bwrdd Prifysgol Cymru ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg
Yr Athro Ioan Williams (PC Aberystwyth) Yr Athro M Wynn Thomas (PC Abertawe) Gwilym Dyfri Jones (Coleg y Drindod, Caerfyrddin)	} Wedi'u henwebu gan } Fwrdd Prifysgol Cymru } ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng } y Gymraeg
Yr Athro Derec Llwyd Morgan	Wedi'i enwebu gan AUC (hyd at Fehefin 2004)
Yr Athro Gareth Roberts, PC Bangor Ifor Gruffydd, Prifysgol Caerdydd Yr Athro Stuart Cole, Prifysgol Morgannwg	} Wedi 'u dewis o enwebiadau } wedi'u cynnig gan SAUau }
Yr Athro Gwyn Thomas	Aelod o CCAUC
Meri Huws	Wedi'i enwebu gan UALL Cymru
James Knight	Wedi'i enwebu gan UCM Cymru
Dr Lowri Lloyd	Wedi'i enwebu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg
Huw Thomas	Wedi'i enwebu gan CYDAG
Liz Saville, Sgiliaith	Wedi'i enwebu gan Fforwm
Hywel Evans	Wedi'i enwebu gan ADC (WDA) fel cynrychiolydd o gyflogwyr
Yr Athro Deian Hopkin, Prifysgol South Bank	Benodwyd i ddod ag arbenigedd o'r tu allan i Gymru (hyd at Fehefin 2004)
Dr Ioan Matthews	Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru
Celia Hunt Dr Alison Allan (Ysgrifennydd) Emma Raczka	} } Swyddogion CCAUC }
Ann Jenkins	Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Dr Lynn Williams	Ysgrifennydd Cyffredinol, Prifysgol Cymru (Sylwebydd)

CYLCH GORCHWYL

Rhoi cyngor i ac ymgynghori â'r sector, y Cyngor a Bwrdd Prifysgol Cymru ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys:

- Paratoi a goruchwylio gweithredu strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch, gan gynnwys nodi meysydd blaenoriaethol i'w datblygu.
- Monitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn y strategaeth, a diwygio'r strategaeth ar sail y canlyniadau.
- Gweithio yn strategol ag Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru i'w galluogi i gyfrannu at ddatblygu a chyflawni'r strategaeth genedlaethol.
- Ystyried strategaethau cyfrwng Cymraeg y sefydliadau, gan gynnwys eu cydlyniaeth â'r strategaeth genedlaethol.
- Ystyried materion yn ymwneud â'r rhyngwyneb rhwng y sector ôl-16 a'r sector addysg uwch, gan gynnwys materion galw a dilyniant, a'r posibiliadau ar gyfer cydweithio lle bo'n briodol.
- Adrodd ar gynnydd i'r sector, y Cyngor a Bwrdd Prifysgol Cymru ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg.
- Monitro ac asesu goblygiadau polisïau eraill yn ymwneud â dwyieithrwydd, gan gynnwys polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru, a allai effeithio ar y strategaeth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch.

ATODIAD B: CRYNODEB ARIANNOL

Fel yr eglurwyd yn y strategaeth, mae'r ffigurau ar gyfer y Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion a'r Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu wedi cael eu cyfrifo eisoes fel rhan o'r cynnig i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio. Mae ffigurau eraill yn arwyddol, er iddynt gael eu hamcangyfrif ar sail adroddiad Chwefror 2003 CCAUC i'r Gweinidog, ac mae angen gwneud gwaith pellach i fireinio'r gweithgareddau a gynigir a manylu ar y ddadl dros gyllid. Ni chynhwyswyd ffigurau o dan Ddatblygu Darpariaeth a Chymorth Canolog gan y bydd union ffurf y rhain yn dibynnu ar ganlyniad y gwerthusiad dewisiadau arfaethedig.

Ac eithrio'r Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion a'r Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu, nid yw'r ffigurau a roddir wedi cymryd i ystyriaeth unrhyw godiadau CMC (GDP) blwyddyn-ar-flwyddyn.

Cydnabyddir y bydd gweithredu'r strategaeth yn gofyn am fuddsoddi ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys drwy Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio CCAUC neu arian arall y gall ei ddyrannu i gwrdd â blaenoriaethau *Ymgeisio'n Uwch.* Bydd y gweithgareddau o fewn y ffrydiau cyllido presennol yn parhau yn 2004/05 (Premiwm Cyfrwng Cymraeg, y Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ac adnoddau'r Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg, Cynllun Ysgoloriaethau Addysgu Cyfrwng Cymraeg CCAUC, ac Ymgyrraedd yn Ehangach).

Mae'r rhan fwyaf o'r amcangyfrifon yn cwmpasu'r cyfnod o 2005/06 hyd 2007/08. Fodd bynnag, cynigir cynnal y Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion am gyfnod o bum mlynedd i ddechrau (o 2005/06) gyda pheth gwaith paratoi yn cael ei wneud yn 2004/05. Dylid nodi, os nad yw'r Cynllun yn parhau wedi'r dyddiad hwnnw, y bydd y costau'n parhau hyd nes bod yr holl ysgoloriaethau a ddyfarnwyd wedi cael eu cwblhau.

Nid yw'r cyllid presennol ar gyfer y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a'r cyllid Datblygu a ddarperir gan yr Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg wedi cael eu cynnwys yn y tabl gan y bydd yr achos cyllidol dros ddatblygu darpariaeth yn cael ei baratoi ar ôl cael canlyniad y gwerthusiad dewisiadau arfaethedig. Yn yr un modd, ni chynhwyswyd yr adnoddau sy'n cefnogi'r Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg, er y câi'r rhain eu cymryd i ystyriaeth wrth osod cyllideb gyffredinol ar gyfer unrhyw weithgarwch cydgysylltu canolog yn y dyfodol.

	Cyllid (Amcangyfrif) (£)						Nodiadau
	2004/05	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10	
Gwerthusiad dewisiadau o fodelau cyflwyno darpariaeth							Cais i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio (yn cael ei drafod)
Astudio costau darpariaeth cyfrwng Cymraeg/adolygu taliadau premiwm							I'w ystyried gan CCAUC (ni osodwyd cyllideb)
Datblygu a recriwtio staff							
Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion		156,850	325,740	506,730	699,880	905,250	Cais i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio
Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu	75,000*	80,955	83,160	85,365			Cais i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio
Gweinyddu		17,000	7,100	7,325	7,550	7,800	Cais i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio
Cynlluniau posibl ar gyfer sefydliadau heb sylfaen ymchwil gref		40,000	80,000	80,000			Ffigurau arwyddol
Rhaglen hyfforddi i fyfyrwyr ymchwil/cymrodyr addysgu		30,000	10,000	10,000			Ffigurau arwyddol
Hyfforddiant sefydlu / rhaglen achrededig i staff newydd		70,000	50,000	50,000			Ffigurau arwyddol
Hyfforddiant i staff presennol i'w galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg		30,000	20,000	20,000			Ffigurau arwyddol
Gweithgareddau gwella dysgu ac addysgu		20,000	20,000	20,000			Ffigurau arwyddol
Marchnata a dilyniant							
Swyddog Marchnata a Dilyniant		30,000	30,000	30,000			
Ymchwil / casglu data		25,000	25,000	25,000			Ffigurau arwyddol
Ymgyrch farchnata		50,000	50,000	50,000			Ffigurau arwyddol
Taflenni a llenyddiaeth		10,000	10,000	10,000			Ffigurau arwyddol
Datblygu darpariaeth							I'w ystyried wedi'r gwerthusiad dewisiadau
Cydgysylltu canolog							I'w ystyried wedi'r gwerthusiad dewisiadau
CYFANSWM	75,000	559,805	711,000	894,420	707,430	913,050	

* Cyllid CCAUC ar gyfer 2004/05.